


# Cynllun 2017/18

## Cyngor Gwynedd

**Rhagor o wybodaeth**
Uned Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

E-bost: cynlluniostrategolapherfformiad@gwynedd.llyw.cymru

Ffôn: 01286 679 661

**I gael copi o'r ddogfen hon mewn print Bras, Braille, ar dâp neu mewn iaith arall, cysylltwch â Hawis Jones ar 01286 679 661**

Papur wedi ei ailgylchu

Graffeg wedi eu dylunio gan "Freepik"

# Cynnwys

| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair yr Arweinydd | 3 |
| Proffil o Wynedd | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Llesiant Pobl Gwynedd – Cefndir a chyd-destun | 7 |
| Llesiant Pobl Gwynedd – Nodau Llesiant yng Ngwynedd | 8 |
| Llesiant Pobl Gwynedd – Cynlluniau i Wella | 16 |
| Cyflawni'r Cynllun | 36 |

Ceir hyd i'r mesurau yn **Atodiad 1**, sydd yn cyfeillio'r ddogfen hon.

# Rhagair yr Arweinydd

Mae ein hadolygiad o Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17 eleni yn wahanol i'r arfer yn yr ystyr ei fod yn ymestyn y cynllun presennol am flwyddyn er mwyn dod a'r gwaith i ben gan baratoi'r ffordd ar gyfer creu cynllun newydd gan y Cyngor newydd wedi etholiadau mis Mai eleni. Felly rydym wedi nodi yr hyn sydd wedi'i gyflawni ac wedi cwblhau a gosod cynlluniau yn eu lle ar gyfer y prosiectau hynny sydd angen eu parhau am flwyddyn arall eto. Fel yn y gorffennol rydym yn ceisio rhoi ein pwyslais ar brosiectau sydd wirioneddol angen eu gweithredu er mwyn creu newid er gwell. Prosiectau sydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau a phrosiectau sydd yn parhau i hyrwyddo'r Gwynedd Newydd. Ond gwaith sydd yn creu newid tymor hir a chynaliadwy, nid rhestr o ddymuniadau tymor byr.

Rydym wedi profi heriau a llwyddiannau ar hyd y daith, ac wedi dysgu llawer ar y siwrne. Beth bynnag y cyd-destun, rydym yn benderfynol o gydio yn ein huchelgais o greu'r Wynedd Newydd bydd yn creu etifeddiaeth yfory. Ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ni heddiw sydd yn gosod y cyfleon ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Golyga'r cyfrifoldeb hynny ymateb yn gadarnhaol a phenderfynol gan weithio mewn partneriaeth yn lleol ac yn genedlaethol.

Hwn yw'r tro olaf i mi gyflwyno gwaith Cynllun Strategol Gwynedd gan fy mod eisoes wedi cyhoeddi fy mwriad i sefyll lawr fel aelod ac fe Arweinydd Cyngor Gwynedd fis Mai eleni. Mae wedi bod yn fraint i fod yn gysylltiedig gyda'r gwaith pwysig hwn ac wedi bod yn anrhydedd cydweithio gydag aelodau a swyddogion sydd yn gwneud cymaint i gyfrannu at waith y Cyngor ac at y sir arbennig hon. Ond mae'r siwrne yn parhau ac fe ddaw eraill i arwain ac i chwarae eu rhan gydag egni newydd a golwg ffres ar y byd. Felly mae parhau i adeiladu ein Gwynedd Yfory.



Dyfed Edwards, **Arweinydd y Cyngor**


# Proffil o Wynedd

**6.9 miliwn** ymwelydd

yn creu refeniw gwerth **£964 miliwn**

**65%** Cymraeg

**122,864** o bobl Gwynedd




**187** milltir o arfordir

oddeutu **61,000** o anheddau

Canolrif incwm **£23,988**

**£143k** Canolrif Pris Tŷ

**1,821** milltir o ffyrdd

# Cyflwyniad

Pwrpas y cynllun hwn yw rhoi gwybod i bobl Gwynedd beth mae'r Cyngor yn ei wneud, ac yn bwriadu ei wneud yn ystod blwyddyn 2017/18. Fe fydd cynllun eleni yn ymestyniad blwyddyn o Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17.

Wrth adolygu'r cynllun, rydym wedi edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl pedair blynedd o weithredu Cynllun Strategol 2013-17 ac ystyried beth sydd angen ei gyflawni yn 2017/18. Yn ogystal â bod yn ymestyniad o'r cynllun blaenorol, fe fydd Cynllun 2017/18 hefyd yn pontio'r cyfnod rhwng Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-17, a'r cynllun newydd a fydd yn cael ei baratoi a'i fabwysiadu gan y Cyngor a fydd yn cael ei ethol fis Mai 2017.

Mae'r cynllun eleni wedi ei adolygu a'i baratoi mewn cyfnod o newid ac mae'n dilyn cymeradwyo cyfres o doriadau gwerth £4.9miliwn a oedd yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau drwy ymgynghoriad Her Gwynedd. Rydym wedi bod yn gweithio ar wireddu'r toriadau yn 2016/17 a bydd eraill i'w gwireddu yn 2017/18. Mae'r her ariannol cyson yn parhau i'n hwynebu oherwydd lleihad yn y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Ganolog, ac rydym yn ceisio canfod yr arbedion hynny mewn ffyrdd sy'n cael cyn lleied o effaith â phosib ar bobl Gwynedd.

Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Hefyd, fe ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn weithredol fis Ebrill 2016, ac fe fydd y cynllun hwn yn dangos sut rydym yn newid ein ffordd o weithio i adlewyrchu hyn.

Mae'r cynllun yn gynnyrch gwaith a wnaethon ni i ganfod barn trigolion Gwynedd ynglyn â Her Gwynedd, sef yr her sydd wedi ei gosod inni fel Cyngor i barhau i wneud ein gorau dros bobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod gennym lai o gyllid nag erioed a bod y galw am ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu. Mae ein partneriaid allweddol hefyd wedi bod yn rhan o lunio'r cynllun, megis y Bwrdd Iechyd, cynrychiolwyr y Trydydd Sector, Hunaniaith, busnesau, a'r sector addysg bellach ac uwch.

Mae ein Datganiad Llesiant a'n Hamcanion Llesiant wedi eu nodi yn ein penodau **Llesiant Pobl Gwynedd.**

Mae'r bennod **Cyflawni'r Cynllun** yn nodi sut y bydd ein trefniadau llywodraethu yn gweithio er mwyn cyflawni ein hamcanion llesiant a sut y byddwn yn adolygu ein camau gweithredu er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

## Cynlluniau i Wella

Cwblhawyd y cynlluniau i wella canlynol a oedd yng Nghynllun Strategol Gwynedd 2016/17:

- **Ysgol Hafod Lon** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Darpariaeth Fewnol** – gwaith wedi ei gwblhau
- **Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad** – gwaith wedi ei gwblhau

Yn ogystal, mae'r prosiect canlynol wedi ei symud:

- **Gwella mynediad pobl y sir i waith ac ymateb i rwystrau** – gwaith yn parhau fel rhan o gynllun **Cydymdrechu yn erbyn Tlodi**


## Mesurau

Mae ein mesurau hefyd wedi eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r pwyslais rydym yn ei roi ar wella amgylchiadau pobl Gwynedd. Gweler ein mesurau yn **Atodiad 1.**

# Llesiant Pobl Gwynedd

## Cefndir a chyd-destun

Mae'r rhan yma o'r cynllun yn **ddatganiad am ein hamcanion llesiant.** Mae'n esbonio pam rydym yn ystyried bod gwasanaethau'r Cyngor a'n hamcanion llesiant cysylltiedig yn cyfrannu at gyflawni'r **nodau llesiant** fel ag y cânt eu nodi isod.




Mae'r cynllun wedi ei baratoi i gwrdd â gofynion y ddeddf, ond bydd yn cael ei gyhoeddi cyn cyhoeddi Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ac felly nid yw'n ymgorffori canlyniadau'r asesiad hwnnw. Erbyn y flwyddyn nesaf, byddwn wedi ystyried yr Asesiad Llesiant a bydd disgwyl i'w ganlyniadau ddylanwadu ar gynnwys y cynllun o 2018/19 ymlaen.

Mae pobl Gwynedd wedi bod yn cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi bod yn asesu cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y ddwy sir. Cyhoeddwyd pecynnau gwybodaeth ardaloedd Gwynedd a Môn yn hydref 2016, ac maent wedi bod yn sail i drafodaethau a fydd yn arwain at gyhoeddi Asesiad Llesiant y Bwrdd a'i Gynllun Llesiant. Drwy eu cyfraniadau, mae pobl Gwynedd wedi bod yn dweud beth sy'n bwysig iddynt ynghylch eu hardal hwy a bod yn rhan o gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

Yn ogystal â dangos sut rydym wedi mynd ati i osod ein hamcanion llesiant a sut rydym angen ymgorffori llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ein gwaith dydd i ddydd, bydd y cynllun yn dangos pam bod pum egwyddor datblygu cynaliadwy'r ddeddf yn greiddiol i'n gwasanaethau:

### Pum egwyddor datblygu cynaliadwy'r ddeddf, sef y Pum Ffordd o weithio

**Hirdymor** **Atal** **Integreiddio** **Cydweithio** **Cynnwys**




Mae ein gwasanaethau eisoes yn gweithredu mewn ffordd sy'n dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy gan fabwysiadu ymagwedd hirdymor a dull cydweithredol, gan weithio mewn partneriaeth a chynnwys sefydliadau, unigolion a chymunedau. Yn ogystal, rydym yn gweithredu yn ataliol lle'n bosib wrth ymateb i anghenion cyfredol a lleihau dibyniaeth, e.e. ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ar ôl dweud hynny, mae dyfodiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cynnig y cyfle inni fel Cyngor i gymryd stoc o'r hyn rydym eisoes yn ei wneud i weithio mewn ffordd gynaliadwy a gosod uchelgais i ni'n hunain ar gyfer y cyfnod nesaf.

Bydd unrhyw benderfyniadau ariannol yn rhoi sylw gofalus i'n gallu i gyflawni yr hyn rydym wedi ei addo yn y cynllun hwn a byddwn yn adolygu'r hyn rydym yn ei wneud yn barhaus er mwyn sicrhau fod llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol yn rhan ganolog i'r ffordd rydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau. Heb gynllun fel hwn i gyfarch y sefyllfa, a pharatoi ar gyfer llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol, mae'n bosib y bydd gwasanaethau allweddol yn peidio â bod.

# Nodau Llesiant yng Ngwynedd

Mae'r rhan hon o'n datganiad llesiant yn dangos beth rydym eisoes yn ei wneud er mwyn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yma yng Ngwynedd. Er mwyn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaetha'r ffaith bod yr arian sydd ar gael yn lleihau'n sylweddol, rydym yn dangos ein bod yn gweithio at weledigaeth y ddeddf llesiant fel a ganlyn:



# Gwynedd lewyrchus

Rydym yn gweithio drwy amryw o wasanaethau'r Cyngor i greu Gwynedd lewyrchus, gan gychwyn drwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig.

Ein nod yw sicrhau bod gan bob disgybl, ymhob ysgol, y sgiliau angenrheidiol hynny y maent eu hangen i lwyddo yn eu bywydau, ac i ennill y cymwysterau fydd yn eu galluogi i chwarae eu rhan yn llawn mewn byd gwaith a chymdeithas wedi hynny. Bydd y sgiliau hyn yn allweddol i alluogi ein pobl ifanc i wynebu heriau'r dyfodol, ac i ffynnu'n lleol.

Mae hefyd yn nod gennym i fod yn uchelgeisiol dros bob plentyn mewn gofal. Mor uchelgeisiol â phe byddai'n blentyn imi.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd economi sy'n cynhyrchu cyfoeth i drigolion lleol ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth da. Rydym yn canolbwyntio ar greu'r amodau fydd yn galluogi busnesau i greu a chynnal swyddi gwerth uchel o fewn sectorau megis ynni, gweithgynhyrchu, adeiladu a'r diwydiannau creadigol a digidol, ac hefyd ar gefnogi'r sectorau, megis twristiaeth, sy'n galluogi ein hardaloedd gwledig i gynyddu gwerth eu gweithgaredd a'r gyflogaeth maent yn ei gynnig a hynny drwy hyrwyddo arloesedd a thechnoleg.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn dwysau ein hymdrechion i gadw'r budd yn yr economi yn lleol drwy addasu ein trefniadau mewnol a'r cymorth a'r cyngor a roddir i fusnesau lleol i allu cystadlu am dendrau. Mae'r Cyngor a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cydweithio i gefnogi busnesau Gwynedd i dendro yn llwyddiannus am waith a chadw'r budd o gytundebau yn y sector gyhoeddus a phreifat yn lleol. Rhan bwysig o hyn yw gwella trefniadau'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth ac ymgysylltu gyda busnesau.

Ffordd arall o gadw'r budd yn lleol yw cydweithio gyda phartneriaid i annog trigolion lleol i gefnogi busnesau lleol, a sicrhau'r fantais economaidd fwyaf bosib o rinweddau naturiol a diwylliannol Gwynedd i ddiwydiannau allweddol megis twristiaeth. Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi ymhob ffordd bosib unrhyw gyngor cymuned neu fudiad i gynnal gwasanaethau sy'n bwysig i gymunedau ac mae'r gwasanaeth adfywio a mentrau cymdeithasol yn helpu i hyn ddigwydd.

## Amcanion Llesiant

**Sicrhau bod gan bob disgybl y sgiliau angenrheidiol i lwyddo**

**Creu'r amodau i fentrau ffynnu ar draws Gwynedd**

**Creu'r amodau i fusnesau greu a chynnal swyddi gwerth uchel**

# Gwynedd gydnerth

Er mwyn cyfrannu at y nod o fod yn genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol, rydym yn cydnabod fod diogelwch, gwarchodaeth a gwellhad yr amgylchedd o bwysigrwydd critigol ac yn nodwedd allweddol o ddatblygiad cynaliadwy.

Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd gan drigolion a busnesau mewn ailgylchu er mwyn gwella ar ein perfformiad ailgylchu eto eleni.

Rydym wedi rhagweld pwysigrwydd gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang.  Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn cydweithio gyda'n partneriaid yn lleol a rhanbarthol i weithredu dyletswyddau'r Ddeddf Dŵr a Llifogydd 2010, a gwaith i leihau risg llifogydd i gymunedau Gwynedd.

Ein hamcan yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein Bioamrywiaeth yng Ngwynedd drwy ystyried deddfwriaeth Ewropeaidd ar warchod Bioamrywiaeth gan gynnwys Y Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, gyda'r nod o hybu bywyd gwyllt tra'n cadw'n trefi a'n pentrefi yn daclus a diogel.  Rydym yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE) o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Rydym hefyd yn gofalu ein bod yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd.

## Amcanion Llesiant




**Cynyddu ail-gylchu**

**Lleihau risg llifogydd**

**Hybu bywyd gwyllt**

**Cadw trefi a phentrefi yn daclus a diogel**

**Gwarchod a rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn**

**Hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy**

# Gwynedd iachach

Mae Cymru iachach yn gymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosib. Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond gyda lefelau gordewdra plant pedair oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach. Ym myd addysg rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.

Mae'n flaenoriaeth inni i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed, yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles. Mae sefydlogrwydd bywyd plant mewn gofal yn allweddol ar gyfer eu datblygiad. O fod yn ddiogel ac yn sefydlog, mae modd ymateb i anghenion ein plant mewn gofal i wella eu hiechyd a'u lles.

Mae ein gwasanaethau i oedolion yn hyrwyddo llesiant mewn cynlluniau gofal a chymorth unigolion, yn ogystal ag yn adnabod cyfleoedd i ddatblygu gwasanaetahu ataliol mewn cymunedau drwy barnteriaethau a chydweithredu.

Un o'n meysydd gwaith i wella iechyd trigolion Gwynedd yw ysbrydoli, cefnogi a galluogi trigolion Gwynedd i fod yn egnïol a byw eu bywydau yn iach. Gwneir hyn drwy sicrhau fod cyfleusterau hamdden addas ar gael i drigolion Gwynedd ar draws y sir a thrwy gydweithio gyda phartneriaid yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth Cyfeirio at Ymarfer yn wasanaeth arbenigol gydag ystod o weithgareddau i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi gweithgareddau sy'n defnyddio celf, treftadaeth ac adnoddau ein llyfrgelloedd i ddatblygu iechyd a lles.

Mae'n rhan greiddiol o'n gwaith dydd i ddydd i ddiogelu Iechyd y Cyhoedd drwy sicrhau fod busnesau yng Ngwynedd yn cwrdd â gofynion hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Yn ein gwaith yn y maes llygredd rydym yn diogelu iechyd a lles y cyhoedd rhag arferion anniogel drwy sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol.

## Amcanion Llesiant

Gwynedd iachach

**Cynnwys disgyblion ac anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd**

**Sicrhau fod plant a phobl ifanc yn sefydlog ac yn cael eu diogelu rhag niwed**

**Galluogi pobl Gwynedd i fod yn egnïol a byw bywydau iach**

**Diogelu iechyd a lles y cyhoedd**

**Rhoi'r cymorth iawn i unigolion ar yr adeg iawn**

# Gwynedd sy'n fwy cyfartal

Fel rhan o adeiladu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau, ein nod yw gwella deilliannau pob plentyn a pherson ifanc gan sicrhau fod pob disgybl yn cael y gefnogaeth fwyaf addas er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol â'u gallu. Mae rhai o bobl ifanc Gwynedd angen mwy o gefnogaeth nag eraill oherwydd eu hamgylchiadau a'u profiadau wrth dyfu i fyny, ac mae'r Cyngor yn cefnogi pobl ifanc bregus i ddod dros y rhwystrau hynny. Mae gwasanaethau'r Cyngor i ieuenctid yn rhoi cyfle iddynt gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol. Enghraifft arall yn y maes yma yw'r Gwasanaeth Gyda'n Gilydd sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd i sicrhau nad yw'r problemau sy'n eu hwynebu yn mynd yn fwy dwys a chymhleth.

Mae'r gallu gan y Cyngor hefyd i wneud cymaint ag y gall er mwyn rhoi cymorth ymarferol i bobl sydd mewn amgylchiadau ariannol anodd. Er enghraifft, rydym yn gofalu ein bod yn prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor.

Wrth inni gasglu trethi yn brydlon ac effeithlon, rydym hefyd yn ceisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Byddwn yn hyrwyddo unrhyw eithriadau a disgowntiau, unrhyw gymorth trwy'r cynllun gostyngiad treth cyngor, yn annog trefniadau a chytundebau talu ac yn cymell i unigolion geisio cyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

Rydym yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd fydd yn helpu i greu cymunedau gwydn, cefnogi cynhwysiad pobl yn eu cymunedau a mynd i'r afael â thlodi. Rydym yn sicrhau mynediad i wybodaeth, cefnogaeth a chyfleusterau i drigolion ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu llawn botensial. Gwneir hyn drwy rwydwaith o lyfrgelloedd ar draws y sir a thrwy raglenni megis OPUS (sy'n gweithio gydag unigolion ag anableddau dysgu neu broblemau lechyd meddwl sy'n economaidd anweithredol dros 25 oed i gael i mewn i gyflogaeth gynaliadwy), a TRAC (sy'n cefnogi pobl ifanc sydd wedi datgysylltu ag addysg neu nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) a Chymunedau'n Gyntaf. Er mwyn creu cymunedau atyniadol, rydym hefyd yn hyrwyddo mynediad i'r celfyddydau ac yn gwarchod a dathlu ein diwylliant a threftadaeth.

Mae ein gwasanaeth cludiant cymunedol yn gyfrifol am ddarparu cyfleoedd teithio mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant ac i bobl sydd yn methu neu yn ei chael hi'n anodd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol.

Mae'n nod inni hefyd sicrhau bod gwaith adeiladu yn cyrraedd y safonau priodol, gan sicrhau bod adeiladau yn darparu cyfleusterau ar gyfer yr anableddau yn ogystal ag yn ddiogel, cynaliadwy ac effeithiol o ran ynni.

Bydd 2017/18 yn ail flwyddyn i Gynllun Strategol Cydraddoldeb y Cyngor, ac mae'r egwyddor o roi llesiant holl bobl Gwynedd yn ganolog yn berthnasol yma hefyd. Rydym yn credu mai'r ffordd orau o hybu cydraddoldeb yw gwrando ar farn a phrofiad pob carfan o gymdeithas wrth gynllunio a

chynnal ein gwasanaethau.  Yn syml felly, ein bod yn rhoi holl bobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud.

## Amcanion Llesiant

**Gwynedd sy'n fwy cyfartal**

**Atal anghenion unigolion rhag cynyddu**

**Cefnogi pobl mewn amgylchiadau ariannol anodd**

**Mynd i'r afael â thlodi**

**Darparu cyfleoedd teithio i bawb ar draws y sir**

**Sicrhau bod gwaith adeiladu yn ddiogel, cynaliadwy ac effeithiol o ran ynni**

**Adfywio a chryfhau cymunedau**

Gwynedd o gymunedau cydlynus

# Gwynedd o gymunedau cydlynus

Er mwyn sicrhau cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu cymunedau.  Mae mentrau cymdeithasol a chymunedau yn chwarae rhan bwysig yn hyn a byddwn yn eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu drwy ein gwasanaethau adfywio. Rydym yn hyrwyddo lles a diogelwch disgyblion ac yn eu cefnogi drwy ddarparu ystod o wasanaethau ategol.

Mae'n allweddol sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed, ac rydym yn ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant, a hefyd yn anelu i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl.

Mae elfen arall bwysig o waith y Cyngor i gyfrannu at y nod hon yn digwydd ym maes Diogelwch Cymunedol drwy weithio gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Gwasanaeth Prawf Cymru, a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er mwyn diogelwch a lles cymunedau Gwynedd a Môn.

Mae gwasanaethau ieuenctid y Cyngor yn hyrwyddo dinasyddiaeth ymysg pobl ifanc ac yn eu cefnogi i chwarae rôl lawn mewn cymdeithas.

Maes arall o waith y Cyngor sydd yn cyfrannu at gyrraedd y nod hon yw cynnal llwybrau cyhoeddus, llwybrau eraill a safleoedd sy'n bwysig i gymunedau a phobl Gwynedd yn ogystal â chynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael mwynhau.  Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio sicrhau adnoddau o ansawdd diogel yn ein parciau gwledig, harbyrau, marinas ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau i bobl leol ac ymwelwyr.

Rydym hefyd yn cefnogi trefnwyr digwyddiadau i greu bwrlwm mewn cymunedau ar draws y sir.

## Amcanion Llesiant




**Diogelu plant ac oedolion rhag niwed**

**Cydweithio â phartneriaid i leihau trosedd ac anhrefn**

**Cynnal llwybrau cyhoeddus a meysydd chwarae**




# Gwynedd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa ble mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar hyd y sir.

Rydym yn arwain ar waith arloesol ar draws y Gogledd, ac yn genedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg  drwy hybu'r Siartr Iaith er mwyn cyfrannu at gyrraedd y nod hon o warchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.

Yn ogystal â darparu gwasanaeth llyfrgell i bobl Gwynedd, rydym hefyd yn annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden, gan roi lle amlwg i'r Gymraeg.  Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd.  Mae'r Cyngor hefyd yn dyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb gan hyrwyddo'r Gymraeg mewn cymunedau yn ogystal â gwarchod archifau ac etifeddiaeth Gwynedd.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw, ond yn wyneb toriadau i'r grantiau strategol i'r celfyddydau, bydd rhaid inni weithio'n wahanol gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr  i wneud yn siŵr fod hyn yn llwyddo.

## Amcanion Llesiant




**Hybu defnydd y Gymraeg**

**Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau**

**Darparu gwasanaeth llyfrgell**




# Gwynedd sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i ystyried beth y gallwn ei wneud i gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd eang. Rydym yn bwriadu lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo heddiw ac i'r dyfodol. Mae gennym gynlluniau arloesol fel newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg Light Emitting Diode (LED) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan yn briodol. Mae hyn nid yn unig yn lleihau carbon ond hefyd yn arbed arian inni fel ein bod yn gallu parhau i wario'r arian hwnnw ar wasanaethau eraill i drigolion.

Mae'r Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol hefyd yn gyfrifol am gynnal digwyddiadau addysgu a chodi ymwybyddiaeth plant i ailgylchu gwastraff ac atal sbwriel, graffiti, gwaredu slei bach a phroblemau baw cwn a fydd yn cyfrannu at wella ymddygiad yn y maes yma i'r dyfodol.

Drwy Raglen Ailsefydlu Syria, rydym yn rhoi cymorth ar gyfer ymdrech fyd-eang i leddfu'r argyfwng dyngarol trwy ddarparu cyfleoedd adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid.

Yn olaf, mae gwaith y Cyngor ym maes cydraddoldeb yn cyfrannu at ddatblygu pobl sy'n fwy cyfrifol ar lefel fyd-eang, er enghraifft drwy greu'r amgylchiadau i bobl o wahanol gefndiroedd i gynrychioli pobl Gwynedd drwy sefyll etholiad i fod yn aelod etholedig.

## Amcanion Llesiant




**Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo**

**Darparu cyfloedd adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid**


**Addysgu a chodi ymwybyddiaeth plant am ailgylchu ac atal sbwriel a graffiti**

# Llesiant Pobl Gwynedd

Rydym yn cydnabod bod angen newidiadau mwy arwyddocaol mewn rhai meysydd, ac rydym wedi datblygu cynlluniau i wella er mwyn cyfarch hynny. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y materion y byddwn yn rhoi sylw pennaf iddynt dros gyfnod y cynllun i gyrraedd at ein hamcanion llesiant.

# Cynlluniau i Wella

**Nod(au) llesiant rydym yn cyfrannu tuag atynt**




## Plant a Phobl Ifanc

**Mae dechrau cyfnod bywyd pob un ohonom yn allweddol ar gyfer gosod sylfaen ar gyfer gweddill ein bywydau, ac mae'r egwyddor o wneud yn siŵr fod pob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr un safon dda o addysg yn un bwysig.**

### P1 Codi Safonau – Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 4

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu yn lleol. Byddwn yn gweithredu camau ymarferol yn yr ysgolion er mwyn gwella a chysoni safonau addysg. Byddwn yn targedu pynciau penodol, ac yn herio perfformiad mewn meysydd penodol, yn ogystal ag yn comisiynu gwaith cychwynnol i ddeall sefyllfa ysgolion uwchradd sydd, neu sydd yn agos at, dderbyn y warchodaeth staffio.

Yn ystod 2016/17, cyflwynwyd model newydd o gefnogi ysgolion er mwyn cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol, datblygu partneriaethau newydd, gwella deilliannau cyfnod allweddol, yn ogystal â chefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli uchaf. Gweithredwyd manyleb glir rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle i fonitro ac arfarnu cynnydd yn yr ysgolion.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Gweithio gyda GwE i godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn y pynciau craidd trwy dargedu adrannau penodol sy'n tanberfformio yn ein hysgolion uwchradd
- Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (Dangosydd Cyfnod Sylfaen) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen
- Targedu gwelliant mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

- Dadansoddi sefyllfa gyllidol a chwricwlaidd ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion
- Adnabod anghenion lleiafswm staffio sydd ei angen er mwyn cynnal cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion;
- Argymell a chostio ble ddylai'r llinell warchodaeth staffio fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn i'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth sefydlu cyllideb 2018/19

### P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Arweinyddiaeth dda yw'r prif ffactor sy'n hyrwyddo addysg o'r ansawdd orau ac felly rydym yn rhoi sylw penodol i wella ansawdd arweinyddiaeth gan ddatblygu rheolwyr a darpar reolwyr ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol yn ein hysgolion. Bydd hyn yn allweddol os am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion, gan y bydd arweinyddiaeth gref yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

Yn ystod 2016/17, adolygwyd strwythurau'r Adran Addysg gan greu strwythur ardal newydd a diffinio rôl 'Swyddog Addysg Ardal' er mwyn cydlynu'n well y gefnogaeth i'r ysgolion a'r holl wasanaethau cefnogol. Cynhaliwyd trafodaethau eang gyda llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned yn ehangach o ran datblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd a byddwn yn parhau â'r ddeialog yma am amodau arweinyddiaeth ac addysgu.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Gweithredu cynllun datblygu arweinyddiaeth sy'n gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd
- Gosod cyfeiriad clir fydd yn galluogi athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a chodi safonau ein disgyblion
- Canfod ffyrdd o ysgafnhau baich rheolaeth a gweinyddu ysgolion er mwyn galluogi athrawon i ganolbwyntio yn bennaf ar ddysgu, a gwell amodau i benaethiaid i arwain addysg
- Datblygu arweinwyr i weithio ar draws ardal ddaearyddol ehangach a chael cyfrifoldebau ar draws ysgolion
- Sicrhau trefniadau lle bo'r awdurdod a chyrff llywodraethu yn ymyrryd ynghynt mewn ysgolion ble mae arweinyddiaeth yn peri pryder
- Sicrhau strwythur rheolaeth gydweithredol ar lefel dalgylch ac ardal a fydd yn rhyddhau amser i benaethiaid arwain yn effeithiol
- Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol

## Rhaglen rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol

Pwrpas y rhaglen hon yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd ei chyflawni yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc. Mae angen hefyd cynllunio a modelu ar gyfer strwythur i'r dyfodol gan roi sylw penodol ar gynllunio ar gyfer y trothwy nesaf o brosiectau cyfalaf y Llywodraeth. Manylir ar brosiectau'r rhaglen isod:

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

## P3 Prosiect Bangor

Pwrpas y prosiect yw adolygu addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd.

Yn ystod 2016/17 rydym wedi:

- Sicrhau cyfraniad mewn egwyddor o £6.365miliwn o gronfa Ysgolion 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru
- Cael cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn trafodaethau lleol ar adolygu addysg gynradd ym Mangor

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Sefydlu Pwyllgor Adolygu Dalgylch (PAD) i adnabod a thrafod opsiynau gan gytuno ar opsiwn ffafredig fydd yn ymateb i anghenion addysg ar gyfer yr ardal i'r dyfodol
- Yn ddibynnol ar ganlyniad y trafodaethau, cynnal ymgynghoriad statudol
- Yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol, rhyddhau rhybuddion statudol
- Creu achos busnes er mwyn sicrhau cyfraniad £6.365miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at unrhyw waith cyfalaf

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P4 Dalgylch Y Gader

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau.

Bydd y cynnig hwn yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, rhannu adnoddau a gwella a chysoni ansawdd yr addysg ar draws y dalgylch. Golyga hefyd fuddsoddiad cyfalaf sylweddol o £4.3miliwn i wella'r amgylchedd dysgu ar safleoedd penodol yn y dalgylch. Mae'r achos busnes llawn ar gyfer y prosiect wedi ei gymeradwyo. Bydd Ysgol Bro Idris yn agor ym mis Medi 2017.

Yn 2016/17, llwyddwyd i gwblhau'r gwaith adeiladu ar safle Rhydymain a pharhau â'r gwaith adeiladu ar safleoedd Cynradd Dolgellau a Llanelltyd. Cytunwyd ar strwythur staffio ar gyfer yr ysgol newydd yn ogystal, a penodwyd y mwyafrif o'r swyddi rheolaethol, penaethiaid maes a safle.

Erbyn Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cwblhau'r gwaith adeiladu gwerth £4.3miliwn ar safleoedd Rhydymain, Llanelltyd a Cynradd Dolgellau
- Agor Ysgol Bro Idris ym Medi 2017

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P5 Ysgol Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor. Nid yw amgylchedd dysgu'r ysgol bresennol yn addas, gan fod yr adeiladau wedi cyrraedd diwedd eu hoes, ac mae eu cyflwr yn wael iawn.

Bydd y cynllun newydd yma yn sicrhau gofod modern a phwrpasol er mwyn gwella amodau i athrawon a phlant. Bwriedir yn ogystal ymchwilio i'r posibiliadau o ddatblygu canolfan integredig ar gyfer plant a theuluoedd ger safle'r ysgol newydd. Bydd canolfan o'r fath yn dwyn ynghyd rai o'r gwasanaethau hynny sy'n cefnogi plant a theuluoedd ar Stad Maesgeirchen, a rhoi sylw penodol i wasanaethau blynyddoedd cynnar a rhai sy'n ataliol eu natur. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn agor ym mis Medi 2017.

Yn 2016/17, parhawyd hefo'r gwaith adeiladu gwerth £5.11miliwn, a gwnaethpwyd cynnydd yn unol a'r rhaglen waith.

Erbyn Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cwblhau'r gwaith adeiladu gwerth £5.11miliwn
- Trosglwyddo Ysgol Glancegin a'i disgyblion i'r adeilad newydd ym Medi 2017

Cost: Dim cost ychwanegol.

## P6 Dalgylch Y Berwyn

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol Y Berwyn. Bydd y Campws yn adnodd cymunedol o'r radd flaenaf i'r ardal, ac yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Bydd y cynllun yn arwain at fuddsoddiad o £10.27miliwn yn nhref Y Bala, gan wella yn sylweddol yr amgylchedd dysgu i blant yr ardal. Yn ogystal, bydd y campws yn cynnwys adnoddau cymunedol fel llyfrgell a darpariaeth gelfyddydol, ac adnoddau ychwanegol i wella'r ddarpariaeth chwaraeon. Bydd y campws yn agor fis Medi 2018.

Rydym eisoes wedi:

- Cymeradwyo'r cais cynllunio ar gyfer y Campws Dysgu
- Penodi contractwyr a cychwynnwyd y gwaith adeiladu ar safle presennol Ysgol Y Berwyn
- Agor cae pêl-droed pob tywydd ym Maes Tegid, Y Bala - mi fydd yn adnodd ar gyfer holl ysgolion y dalgylch yn ogystal â'r gymuned ehangach

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cwblhau'r broses o sefydlu corff llywodraethol cysgodol y campws dysgu arfaethedig, ac yn bwrw ymlaen hefo gwaith y corff yn unol â'r prosesau arferol ar gyfer sefydlu ysgol newydd
- Symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu arfaethedig gwerth £10.27miliwn

Cost: Dim cost ychwanegol.

**Ein nod yma yw cydweithio â phlant a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn mwy o gefnogaeth ar gyfer manteisio ar gyfleoedd ac ennill profiadau er mwyn gwneud cynnydd.**

### P7 Sefydlu Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad ar y cyd ag Ynys Môn

Pwrpas y prosiect yw trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddwn yn gweithredu strategaeth glir ar draws yr ystod lawn o feysydd cynhwysiad ac anghenion dysgu ychwanegol ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.

Byddwn yn sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer manteisio ar gyfleoedd ac ennill profiadau sydd wedi'u cynllunio yn effeithiol ar eu cyfer. Bydd ffocws clir ar ddeilliannau fel eu bod yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u gallu.

Yn 2016/17 ychwanegwyd manylder gweithredol i'r strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Amlygwyd yn glir nodau ac amcanion pob un o'r gwasanaethau o fewn y strategaeth ac fe gytunwyd ar strwythur staffio fanwl ar gyfer ei gwireddu. Cytunwyd ar fodel llywodraethu ar y cyd a Chyngor Ynys Môn. Mae egwyddorion y strategaeth yn parhau i gynnwys sylw i'r blynyddoedd cynnar, sefydlu tîm canolog integredig o bobl broffesiynol gydag arbenigeddau penodol a gweithredu rhaglen hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Gweithredu'r Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn llawn gan gyflawni gwell deilliannau i blant a phobl ifanc am gost sylweddol lai
- Gweithredu'r ail strwythuro o fewn y gweithlu Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr
- Adolygu'r meini prawf
- Sefydlu is grwpiau i edrych ar y Blynyddoedd Cynnar, Ôl 16 ac Ysgolion Arbennig

Cost: Dim cost ychwanegol.

### P8 Rhaglen Ymyrraeth Gynnar / Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd

Pwrpas y rhaglen yma yw gweithredu cyfres o gynlluniau er mwyn sicrhau bydd llai o deuluoedd a phlant yn cael eu cyfeirio at ymyraethau cost uchel o fewn gwasanaethau statudol i'r dyfodol. Byddwn yn gweithio ar y cyd gyda phartneriaid lleol yn cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector.

Rydym eisoes wedi cynnal asesiad o anghenion sydd wedi adnabod meysydd penodol sydd angen eu targedu wrth gynllunio pecynnau ataliol i'r dyfodol. Mae'r meysydd yma yn cynnwys oediad a llefaredd iaith, rhiantu a chefnogaeth ymddygiad, mynediad i wasanaethau iechyd meddwl; a cefnogaeth i bobl ifanc yn eu harddegau. Rydym hefyd yn parhau gyda gwaith Tîm Gyda'n Gilydd a Theuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â chynllun arloesol yn y meysydd blynyddoedd cynnar a rhiantu.

Hirdymor Atal Integreiddio Cydweithio Cynnwys

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Ail gomisiynu a blaenioraethu adnoddau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar gyfer 2017/18
- Cryfhau'r model Tîm Gyda'n Gilydd gan adeiladu ar y gwaith o gydlynu'r gefnogaeth i grwpiau bregus o deuluoedd
- Gweithredu rhaglen waith y strategaeth ataliol, yn cynnwys cyd-weithio gydag gwasanaethau Addysg, Ieuenctid, Hamdden ac Oedolion i sicrhau gwasanaethau cydlynus i blant a theuluoedd Gwynedd
- Gweithredu fframwaith ymgysylltu'r Llywodraeth, sy'n rhoi sylw i grwpiau bregus o blant a phobl ifanc
- Rhoi trefn glir a phendant yn ei lle ar gyfer mesur effaith ymyraethau ataliol

Cost: £40,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.

## P9 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol


Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn ystod 2016/17, datblygwyd strategaeth ar gyfer yr uwchradd fel offeryn cynllunio effeithiol ar gyfer arwain at gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cefnogi'r 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodoleg addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau rhugl rwydd yn y ddwy iaith

Cost: £40,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.




# Gofal

**Mae'r gwaith ym maes Gofal yn canolbwyntio ar ymgysylltu gyda phobl Gwynedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Bydd ei lwyddiant yn allweddol o ran gwaith ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor, ynghyd â'n partneriaid yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid.**

## G1 Her Gofal

Pwrpas y prosiect hwn yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Fe fydd llwyddiant y prosiect yn allweddol o ran gwaith ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor, ynghyd â'n partneriaid yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid ac yn cwrdd â'r gofyn o fewn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Ar ddiwedd y prosiect, bydd gan bobl Gwynedd ddealltwriaeth o beth all y Cyngor gynnig fel gwasanaethau a dealltwriaeth o'u rôl eu hunain a fydd yn golygu ein bod yn cyfrannu ac yn cefnogi'n naturiol y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y prosiect, llwyddwyd i ddatblygu 'stori' yr Her Gofal, sef y cefndir, y cyd-destun â'r rheswm dros newid. Cyfathrebwyd stori ac ymgysylltwyd gyda rhan ddeiliaid, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i drafod yr her.

Erbyn Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Gweithredu yn bellach y strategaeth gyfathrebu a phrif ffrydio'r gwaith trwy sefydlu gwasanaeth gwybodaeth, cynghori ac asesu (IAA) effeithiol
- Parhau i weithio hefo cymunedau i adnabod eu cryfderau a'r agweddau sydd angen eu datblygu, gyda'r bwriad o ysgogi diddordeb mewn gweithredu cymunedol i ymateb i'r her gofal ac i faterion llesiant eu cymunedau
- Parhau gyda'r gwaith o godi ymwybyddiaeth cyffredinol pobl Gwynedd a'i ddatblygu'n bellach fel mae adborth cymunedau yn cael ei dderbyn

Cost: Bydd y prosiect yn cael ei ariannu o adnoddau sydd eisoes wedi eu clustnodi ar gyfer y maes gofal.

**Mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n effeithiol a, lle'n briodol, yn integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ein bwriad yw gosod sylfaen ar gyfer model gwasanaethu newydd cwbl integredig ar draws gwasanaethau oedolion.**

## G2 Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion

Er mwyn ymateb i heriau amlwg y maes mae'n allweddol ein bod yn gweithio'n effeithiol, a hynny lle'n briodol, yn integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pwrpas y prosiect hwn yw ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio gan sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd (pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn benodol yng nghyswllt y prosiect yma) yn gwbl ganolog yn ein ffordd o weithio.

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

Ers sefydlu'r prosiect yn 2015/16, profwyd llwyddiant o weithio'n integredig drwy sefydlu tîm integredig yn ardal Eifionydd. Mae'r tîm hwn wedi sefydlu'r egwyddorion o ran ffordd o weithio a threialu y dulliau newydd am y tro cyntaf. Maent hefyd wedi arbrofi gyda dulliau o fesur effaith y gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth. Y bwriad yw bod y ffordd yma o weithio yn sylfaen ar gyfer y model gwasanaethu newydd cwbl integredig ar draws gwasanaethau oedolion. Mae y timau integredig wedi eu sefydlu ar draws gweddill Gwynedd ers Mawrth 2017 ac maent wedi mabwysiadu'r ffordd o weithio sydd wedi ei chychwyn yn ardal Eifionydd.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd gennym wasanaethau sydd yn gallu cwrdd â'r hyn sy'n cyfri i unigolion yn y ffordd fwyaf effeithiol bosib, gan sicrhau hefyd nad ydym yn sugno unigolion i fod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol heb fod angen. Mae gwneud hyn hefyd yn sicrhau bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Oherwydd natur y prosiect sydd yn newid diwylliant ffordd o weithio, yn ogystal â strwythur, mae gosod amserlen i bopeth weithio'n llyfn yn anodd. Mae'n debygol y bydd yn 2020 cyn y gallwn fod yn gwbl hyderus y bydd y newid diwylliant wedi ei ymgorffori yn llwyr o fewn ffordd o weithio pawb.

Gallwn er hyn gynnwys rhai cerrig milltir; bydd disgwyl i'r prosiect gyflawni'r canlynol erbyn Mawrth 2018:

- Gwreiddio'r trefniadau gweithio yn gadarn a mesur effaith ein gwaith ar drigolion Gwynedd
- Ymgorffori egwyddorion y ffordd yma o weithio yn natblygiad gwasanaethau

Cost: Dim cost ychwanegol.

## Rhaglen o brosiectau lletya a darpariaethau gofal

**Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar sicrhau fod gan bobl Gwynedd y ddarpariaeth llety a gofal mwyaf addas er mwyn cyfarch eu hanghenion i'r dyfodol.**

Pwrpas y rhaglen hon yw sicrhau fod gan bobl Gwynedd y ddarpariaeth llety a gofal mwyaf addas er mwyn cyfarch eu hanghenion i'r dyfodol, o fewn y cyfyngiadau adnoddau, a'n bod fel Cyngor yn ymateb yn rhagweithiol i'r galw.

Erbyn diwedd y rhaglen bydd gan oedolion bregus Gwynedd yr ystod addas o ddewisiadau lletya a gofal a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau mor llawn a bodlon â phosib. Mae'r rhaglen hon wedi ei rhannu i nifer o brosiectau penodol, a gweler isod y prosiectau sydd yn weithredol yn bresennol.

Llwyddwyd i gael cytundeb ar y Strategaeth Letya Pobl Hŷn, a bydd hon nawr yn cael ei defnyddio i bwrpas trafodaethau datblygol gyda phartneriaid allweddol.

Erbyn diwedd Mawrth 2018 bydd y prosiectau sydd o fewn y rhaglen ar hyn o bryd wedi cyflawni'r canlynol:

### G3 Tai Gofal Ychwanegol

Pwrpas y prosiect yma yw adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog. Erbyn hyn, mae y gwaith adeiladu ar y safle yn symud ymlaen gyda'r datblygiad newydd wedi ei raglennu i fod yn barod oddeutu diwedd 2017. Y nod yw y bydd y trigolion cyntaf yn cartrefu yno ym misoedd cyntaf 2018.

### G4 Frondeg

Pwrpas gwreiddiol y prosiect yma oedd sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen. Yn Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Frondeg, a dod â defnydd presennol yr adeilad i ben unwaith y byddai'r datblygiad newydd ar gael.

Erbyn hyn rydym wedi cytuno ar bartner gweithredol sef Grŵp Cynefin ac rydym yn cyd weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd. Rhagwelir y bydd y safle wedi ei drosglwyddo i Cynefin erbyn yr hydref 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### G5 Darpariaeth Fewnol

Pwrpas y prosiect yma yw penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sydd yn darparu gwasanaeth gofal) yn ogystal â'r hyn rydym yn ei gyflawni a dechrau gweithredu ar hynny. Ar ôl ystyried dewisiadau ar gyfer y dyfodol, daethpwyd i gasgliad y dylid parhau gyda'r gwasanaeth darparu yn ei ffurf bresennol, gan edrych ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth wrth i'r ffordd newydd o weithio sefydlu. Mae'r cynllun hwn felly yn dod i ben.

### G6 Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd

Pwrpas y prosiect newydd hwn yw ceisio ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hŷn yn benodol. Drwy gyflawni'r prosiect, ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd, byddwn yn ceisio sicrhau fod gennym y gyfundrefn addas mewn lle ar draws y maes gofal ac iechyd i'r dyfodol. Bydd y prosiect yn edrych ar agweddau o'r ddarpariaeth yn ogystal â'r angen o ran gweithlu a gofalwyr (gan gynnwys gofalwyr di-dâl).

Erbyn dechrau haf 2017 bydd buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud i gryfhau y ddarpariaeth gofal yn Llys Cadfan, Tywyn a fydd yn caniatáu i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd gynnig gwasanaethau ar y cyd a mwy lleol i drigolion de Gwynedd yn enwedig o ran darpariaeth i bobl hyn gyda dementia. Os bydd y cynllun yn gweithio yna bydd ystyriaeth yn cael ei roi i ledaenu'r model i ardaloedd eraill. Hyderir y byddwn mewn sefyllfa i benderfynu ar ymestyn ai peidio ynghyd â gosod rhaglen amlinellol ar gyfer y gwaith erbyn haf 2018.

- O ran y ddarpariaeth yn y maes pobl hŷn gyda dementia, byddwn yn edrych, ar y cyd gyda Bwrdd


Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar opsiynau gallwn eu mabwysiadu i geisio ymateb i'r problemau presennol o ran argaeledd ac ansawdd gofal. Fel rhan o'r gwaith byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r prif ran-ddeiliaid ac yn derbyn arweiniad arbenigol gan arbenigwyr yn y maes gan gynnwys Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Erbyn Mawrth 2017, byddwn mewn sefyllfa i argymell ffordd ymlaen i'r Bwrdd Iechyd a'r Cabinet

- O ran y gweithlu nyrsio a gofal, bydd y prosiect yn adeiladu ar yr ymyraethau tymor byr a weithredwyd yn ystod 2016/17 ar y cyd gyda'r byrddau iechyd priodol, i geisio gwella'r sefyllfa o ran adnabod a phenodi staff addas i weithio yn y meysydd gofal a gofal nyrsio yn lleol. Bydd y gwaith yma yn parhau yn ystod 2017/18 a gobeithir cytuno ar raglen waith i gyfarch unrhyw ddatblygiadau mwy hir dymor

Mae nifer o gamau wedi eu cymryd yn ystod 2016/17 i wella ein trefniadau ar gyfer cefnogi gofalwyr di-dâl. Mae rhaglen waith sy'n adnabod ymyraethau pellach wedi ei pharatoi a bydd adnoddau staff yn cael eu clustnodi ar gyfer hwyluso gweithredu ar sail y rhaglen yma erbyn Mawrth 2018.

Cost: Dim cost ychwanegol.

# Diogelu




**Mae diogelu plant ac oedolion bregus yn hollbwysig er mwyn sicrhau fod pob unigolyn yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd a diogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Rydym yn cydweithio ar draws asiantaethau a thrwy'r Bwrdd Rhanbarthol er mwyn cyflawni hyn.**

## D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu, a bod gennym weithdrefnau effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd. Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth gweithwyr ac aelodau'r Cyngor o'r agenda hwn yn waith parhaus i sicrhau fod pawb yn ymwybodol fod diogelu plant ac oedolion bregus o gamdriniaeth yn gyfrifoldeb i ni gyd.

Beth felly sydd wedi ei gyflawni yn 2015-17:
Rydym wedi mabwysiadau polisïau a gweithdrefnau diogelu ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac mae llawer o waith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi wedi ei wneud ar draws yr holl weithlu. Rydym hefyd wedi cynnal arolwg blynyddol i fesur effaith a gwelliant mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r maes diogelu, ynghyd â chynnal archwiliadau blynyddol i sicrhau fod ein trefniadau cytundebau ni'n gadarn yn y maes.

Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi:

- Adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau i gyfarch newidiadau deddfwriaethol
- Monitro effaith ein gweithdrefnau drwy'r arolwg ymwybyddiaeth flynyddol a'r archwiliad cytundebau, gan weithredu ar unrhyw argymhellion a pharhau i godi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant yn y maes diogelu

Cost: Dim cost ychwanegol.

## D2 Diogelu plant a phobl ifanc

Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu i blant phobl ifanc. Byddwn yn sicrhau fod gweithdrefnau a pholisïau diogelu yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio o fewn y maes Addysg ac ymateb i'r risg Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) ar draws Gogledd Cymru.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi cryfhau ymhellach y gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg drwy:

- Gynnal awdit blynyddol o drefniadau diogelu a llywodraethu o fewn yr adran ac o fewn ysgolion
- Parhau i wella ymarfer, dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Parhau i gadw'r rhaglen hyfforddiant yn gyfredol i ddiwallu anghenion yr awdit blynyddol
- Weithredu rhaglen waith yn unol â chasgliadau ac argymhellion yr awdit blynyddol ac ystyried hefyd unrhyw gyfleoedd i wella

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi adolygu trefniadau'r Cyngor o ran ymateb i'r risg Ecsploetio Plant yn Rhywiol (CSE) gan:



- Sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd fynd â'r strategaeth ranbarthol sy'n cael ei datblygu'n amlasiantaethol
- Parhau i gynnal trefniadau casglu gwybodaeth am niferoedd achosion, lefelau risg a chydymffurfiaeth a phrosesau diogelu yn y maes er mwyn bod yn ymwybodol o natur y galw yn y maes. Gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth unigolion a grwpiau allweddol o'r maes arbennig hwn gan gynnwys sut i adnabod arwyddion
- Sefydlu panel gweithredol amlasiantaethol i edrych ar achosion unigol ym maes CSE er mwyn cytuno ar weithrediadau sydd angen digwydd i ddiogelu plant a phobl ifanc unigol. Bydd y panel yma yn ychwanegu gwerth i'r ymyrraeth dydd i ddydd rheng flaen

## D3 Diogelu oedolion bregus

Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.


Llwyddwyd i gael trosolwg strategol o'r holl argymhellion sydd dan sylw yn adroddiadau 'Lle i'w Alw'n Gartref', Adroddiad Winterbourne ac Adroddiad Jasmine, gan greu rhaglen waith gynhwysfawr o'r gwelliannau. Cyflwynwyd hefyd adroddiad ansawdd ar ofal preswyl a nyrsio i'r Cabinet yn ystod y flwyddyn.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, fe fydd y prosiect yn gweithredu'r rhaglen waith uchod, a thrwy hynny wedi sicrhau ein bod yn:

- Datblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed
- Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion
- Darparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus

Cost: Dim cost ychwanegol.

Yn ystod 2016/17 adeiladwyd ar y cynnydd a wnaed yn y flwyddyn flaenorol i ymateb i argymhellion adroddiadau, a dechreuwyd y broses o sefydlu Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd ar gyfer yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Penodwyd Uwch Reolwr i roi arweiniad strategol, proffesiynol ac ymarferol i'r tîm. Bydd gweddill y tîm yn ei le yn fuan yn 2017/18 a bydd yn gweithredu ar raglen waith eang fydd yn cryfhau trefniadau ac ymarfer gwaith diogelu oedolion y Cyngor ac yn ein galluogi i sicrhau ansawdd yn ein gwaith a dysgu o brofiad a monitro.




# Tlodi, Economi, Tai

**Drwy gefnogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor yn ogystal â gwaith rhanbarthol, a chydweithio gyda'r gymuned fusnes, gallwn ddatblygu rhwydwaith o gadwyni cyflenwi lleol.**

## E1 Cadw'r budd yn lleol

Pwrpas y prosiect hwn yw uchafu gwariant gyda busnesau lleol.

Mae dwy agwedd i'r prosiect sef gosod trefn gaffael gwasanaethau a nwyddau newydd yn y Cyngor a chefnogi busnesau i gystadlu ac ennill cytundebau'r Cyngor a thu hwnt, yn cynnwys prosiectau cyfalaf a rhanbarthol. Yn ogystal, byddwn yn uchafu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau o drefn gaffael y Cyngor. Bydd pwyslais ar geisio datblygu rhwydwaith o gadwyni cyflenwi lleol trwy gydweithio gyda'r gymuned fusnes.

Rydym eisoes wedi sefydlu Rhaglen Gaffael Flynyddol sy'n cyfeirio busnesau i wybodaeth ynghylch contractau'r Cyngor a digwyddiadau cwrdd â'r prynwr i gefnogi cwmnïau lleol. Yn ogystal, gwelwyd cynnydd yn y canran o fusnes a enillwyd gan gwmnïau lleol fel rhan o gytundeb arlwyo'r Cyngor ynghyd â lleihad mewn costau.

Erbyn diwedd y prosiect bydd cynnydd arwyddocaol yn y nifer o fusnesau sydd â'r ddealltwriaeth a'r gallu i ennill cytundebau'r Cyngor, ac erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cynyddu gwariant y Cyngor efo busnesau lleol
- Cwblhau mewnosod trefniadau prynu strategol gan sefydlu timau fydd yn gyfrifol am wella canlyniadau caffael. Bydd hyn yn golygu arbed arian drwy leihau costau darparu gwasanaethau a'i gwneud yn haws i fusnesau lleol gystadlu am gytundebau'r Cyngor
- Adeiladu ar ein trefniadau codi ymwybyddiaeth ar gyfleon i weithio gyda'r Cyngor trwy amryw ffyrdd, er enghraifft trwy wefan y Cyngor, cyfryngau cymdeithasol a'r wasg
- Parhau i ddarparu gwybodaeth a chynnig cymorth i ddarparwyr lleol ar sut i geisio am waith gyda'r Cyngor gan ystyried ceisiadau am unrhyw gymorth ychwanegol

Cost: Dim cost ychwanegol.

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

**Drwy weithio gyda busnesau a'n partneriaid byddwn yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fyddai yn galluogi mentrau sefydlu, datblygu a sbarduno twf yn yr economi.**

### E2 Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd

Pwrpas y prosiect hwn yw gweithio'n rhagweithiol er mwyn creu'r amodau cywir i ddatblygu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn Gwynedd. Byddwn yn gwneud hyn trwy farchnata'r sir a chefnogi busnesau o fewn sectorau penodol. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau addysg i lenwi bylchau sgiliau a bwydo gwybodaeth i sicrhau'r cyflenwad o weithwyr i'r dyfodol.

Rydym eisoes wedi adnabod y sectorau mwyaf arwyddocaol i Wynedd o ran creu swyddi gwerth uchel, sef Ynni, Digidol, Creadigol ac Ymchwil a Datblygu. Mae pecyn o ddeunyddiau marchnata ar gyfer y sectorau yn cael ei ddatblygu ac mae cefnogaeth i sefydlu rhwydweithiau busnes o fewn y sectorau wedi'i ddarparu. Cefnogwyd cynllun arloesol i annog pobl ifanc lleol i ddiddori yn y sectorau ac mae cynllun lobïo ar gyfer safleoedd Trawsfynydd a Llanbedr yn parhau i gael ei weithredu i ddenu buddsoddiad i'r safleoedd.


Erbyn diwedd y prosiect, bydd mwy o swyddi gwerth uchel ac o ansawdd o fewn y sir, gyda'r seilwaith mewn lle i greu nifer sylweddol mwy i'r dyfodol.

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Datblygu'r pecyn o weithgareddau arloesol i ddenu mewnfuddsoddiad i Wynedd, drwy dargedu busnesau o fewn y sectorau arwyddocaol sydd wedi'u hadnabod gan roi sylw arbennig i safleoedd Ardal Fenter Eryri yn Nhrawsfynydd a Llanbedr
- Cefnogi nifer o fuddsoddwyr gan sicrhau'r budd mwyaf i Wynedd o'r datblygiadau
- Datblygu'r clystyrau busnes yn y sectorau targed a adnabuwyd
- Dechrau gweithredu rhaglen newydd i gefnogi pobl ifanc i astudio pynciau yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg o dan faner Llwyddo'n Lleol
- Cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r rhaglen Ynys Ynni er mwyn sicrhau budd i bobl Gwynedd o ddatblygu Wylfa Newydd

Cost: £117,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.

### E3 Cydymdrechu yn erbyn tlodi




Pwrpas y prosiect hwn fydd gweithredu rhaglen o gynlluniau i leihau effaith tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Bydd y rhaglen yn cynnwys ymyraethau sy'n helpu trigolion i gael sgiliau i ymdopi gyda rheoli incwm y cartref a dyledion, ac sy'n eu helpu i gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein. Mae sylw hefyd yn cael ei roi i weithredu cynlluniau fydd yn rhoi cyfleon gwaith i bobl sydd ddim yn rhan o'r farchnad lafur. Byddwn hefyd yn rhoi cefnogaeth i bobl i ymdopi hefo newidiadau yn y maes lles a buddsoddiadau.

Rydym eisoes yn hwyluso Grŵp Gwytnwch Digidol a Fforwm Ariannol er mwyn tynnu partneriaid ynghyd i gydweithio ar gynlluniau a darparu hyfforddiant cynhwysiad ariannol a digidol ar gyfer staff Cyngor Gwynedd ac asiantaethau lleol. Mae'r gweithwyr bellach yn gallu cefnogi trigolion ar faterion megis defnyddio'r we, cyfeirio at adnoddau ariannol a digidol ar-lein, cwblhau ceisiadau budd-dal ar-lein, a chael mynediad i wasanaethau cyngor ariannol.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Cyflogaeth Gwynedd er mwyn datblygu a sicrhau arian Ewrop ar gyfer rhoi cynlluniau cyflogaeth megis TRAC, Ad-TRAC, Cymunedau i Waith ac OPUS ar waith yn y sir. Drwy'r cynlluniau hyn byddwn yn cefnogi, mentora, hyfforddi a rhoi profiadau gwaith a gwirfoddol i unigolion i'w helpu i chwilio am waith.

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Parhau i hyfforddi staff rheng flaen mewn llythrennedd ariannol a digidol
- Parhau i weithredu'r gronfa Tâl Ddewisol Tai er mwyn cefnogi teuluoedd i osgoi mynd i ddyled oherwydd y dreth llofftydd
- Darparu cymorth i bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol
- Gweithredu pecyn o gynlluniau cyflogaeth i gefnogi unigolion i gael mynediad i gyfleon gwaith
- Gwyro rhaglenni yn y maes addysg a thai tuag at y cymunedau o angen.

Cost: £155,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.

### E4 Strategaeth Cyflenwad Tai

Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth er mwyn cymell ddefnyddio dulliau newydd i gynyddu'r cyflenwad a'r amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

Cymeradwywyd achos busnes dros gael Model Ariannu Tai Fforddiadwy sydd yn cynnwys pedwar prif gynllun sef:

- Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig
- Tai gwag yn ôl i ddefnydd
- Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref




- Darpariaeth i bobl hŷn sy'n hybu annibyniaeth

Erbyn Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Sefydlu'r model ariannu er mwyn cynyddu'r tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Rhagwelir y byddwn yn ystod 2017/18 yn gallu cychwyn adeiladu cartrefi newydd i drigolion gyda'r nod o wireddu 31 o dai
- Byddwn hefyd yn anelu i ddod â rhwng 10-15 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sydd yn ychwanegol i'r cyfanswm blynyddol o 40 i 50 uned
- Byddwn yn ystyried sut gellid gweithredu argymhellion yr adolygiad o ddarpariaeth hostel Rhianfa ac yn ymdrechu i werthuso a datblygu model amgen yn ystod 2017/18 er mwyn gweithredu ar ddatblygu darpariaeth wahanol ar gyfer pobl ddigartref yn ne y sir
- Byddwn yn cadarnhau' r ardal lle mae angen darpariaeth llety ar gyfer bobl hŷn, a'r modelau gwahanol o ddarpariaeth sydd ei hangen. Bydd yr argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r Strategaeth Letya Pobl Hþn yn dylanwadu ar flaenoriaethau datblygu a rheoli asedau ac yn cael eu gweithredu yn ddibynnol ar adnoddau a gan ystyried unrhyw argymhellion o brosiect Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd (**G6**)

Cost: Dim cost ychwanegol.

**Drwy adeiladu ar ein cryfderau a gweithio gyda'n partneriaid a mentrau lleol, gallwn greu'r amodau i fusnesau lleol ffynnu i greu a chynnal cyflogaeth ar draws y sir a gwella mynediad pobl Gwynedd i waith.**




## E5 Gwynedd Digidol

Pwrpas y prosiect yw sicrhau isadeiledd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu safonol ledled Gwynedd a chefnogi busnesau a thrigolion Gwynedd i fanteisio arno i'r eithaf.

Rydym eisoes wedi sicrhau bod 80% o gartrefi a safleoedd busnes yng Ngwynedd yn gallu derbyn gwasanaeth bandeang cyflym ac mae 37% o'r rhai sy'n gallu ei dderbyn eisoes wedi manteisio arno (yr uchaf yng Nghymru). Rydym hefyd wedi sicrhau fod rhaglen o gymorth ar gael i fusnesau ddysgu sut i fanteisio ac wedi hyfforddi 177 o weithwyr y Cyngor a sefydliadau lleol eraill i helpu trigolion gychwyn defnyddio'r we (maent bellach yn helpu oddeutu 500 o drigolion bob wythnos).

Erbyn diwedd y prosiect, bydd busnesau a thrigolion y sir yn manteisio ar fandeang cyflym a'r budd mae'n ei gynnig.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Isadeiledd: Cynorthwyo cwblhau'r cynllun Cyflymu Cymru yng Ngwynedd a sicrhau fod ei olynydd yn rhoi sylw i gwrdd â'r angen fydd yn weddill gan hyrwyddo'r ddarpariaeth i drigolion a



busnesau. Annog a chefnogi'r sector breifat i ymestyn y ddarpariaeth 4G yn y sir. Datblygu sgiliau newydd o ddarparu a defnyddio'r isadeiledd ar y cyd gydag Arloesi Gwynedd Wledig
- Trigolion: Ymestyn y cymorth a'r cyfleoedd i drigolion gael mynediad i'r we gan flaenoriaethu grwpiau ymylol a'r rhai all gael eu heffeithio'n andwyol gan y newid i ddarparu gwasanaethau ar-lein. Datblygu achos sy'n dangos fod cynyddu gwytnwch digidol yn arwain at gynnydd yng nghyflymder a chyfradd mabwysiadu gwasanaethau ar-lein
- Busnesau: Annog a hwyluso mynediad busnesau lleol i'r cymorth i ddefnyddio technoleg sydd ar gael gan ategu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen. Gweithio gyda'r cynllun Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd i hwyluso a chefnogi datblygu'r sectorau creadigol a digidol yn y sir

Cost: Dim cost ychwanegol.

### E6 Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig

Pwrpas y prosiect yw cynyddu cynaladwyedd cymunedau gwledig Gwynedd a'r ardaloedd mwyaf gwledig yn benodol – gan roi sylw arbennig i ddatblygu ystod a gwerth gweithgaredd economaidd yng nghefn gwlad.

Rydym eisoes wedi sicrhau cyllideb o £4miliwn Rhaglen Datblygu Wledig Cymru i ddatblygu dulliau newydd, arloesol o ymateb i heriau Gwynedd wledig. Drwy waith Arloesi Gwynedd Wledig mae ystod o ddatblygiadau cyffrous yn cael eu treialu ar hyd a lled y sir (wele fideo o uchafbwyntiau 2016 yma). Mae'r cynllun wedi sefydlu partneriaeth i ystyried anghenion ein hardaloedd gwledig ac rydym wedi datblygu a bellach yn gweithredu Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd a Chynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Erbyn diwedd y prosiect, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i sefydlu rhaglenni a phrosiectau ar draws ardaloedd gwledig Gwynedd fydd yn cyfrannu tuag at sicrhau cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:
- Datblygu gwaith Arloesi Gwynedd Wledig gan ddatblygu a chynnal treialon arloesol ar hyd a lled Gwynedd a thargedu adnoddau i adeiladu ar ganlyniadau'r 24 o dreialon sydd eisoes wedi eu cynnal
- Gweithio gyda phartneriaid megis Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig a'r gymuned fusnes i ddatblygu prosiectau pellach a sicrhau adnoddau i'w gweithredu

Cost: £23,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.

### E7 Safle Treftadaeth y Byd

Pwrpas y prosiect hwn yw creu budd economaidd o dreftadaeth gyfoethog Gwynedd. Byddwn yn canolbwyntio ar Safle Treftadaeth Byd presennol Cestyll Edward I yn Harlech a Chaernarfon, yn ogystal â chyflwyno achos am statws Safle Treftadaeth Byd i dreftadaeth y diwydiant llechi.

Rydym eisoes wedi gwerthuso'r budd economaidd allai ddeillio o statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi ac o ganlyniad rydym wedi paratoi cais ar gyfer y statws i'r diwydiant. Mae Cynllun Gweithredu Economaidd ar gyfer gwireddu'r potensial hefyd wedi ei ddatblygu gyda'n partneriaid.

Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer cynllun £15miliwn i weddnewid glannau Caernarfon ger y Castell i ddatblygu statws yr ardal fel cyrchfan ranbarthol a rhyngwladol.

Erbyn diwedd y prosiect, bydd lleoliadau ar draws Gwynedd yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol a bydd mantais economaidd sylweddol yn dod yn sgîl hyn.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Cyflwyno cais i UNESCO i ennill statws safle treftadaeth y byd i'r diwydiant llechi
- Paratoi rhaglen o ymyraethau gyda phartneriaid i hyrwyddo balchder cymunedau a datblygu'r economi leol yn y dyffrynnoedd llechi ar sail eu hetifeddiaeth
- Cychwyn gweithredu rhaglen £15miliwn i ddatblygu glannau Caernarfon yn ased i'r sir gyfan
- Cefnogi partneriaid lleol i ymateb i'r anghenion a'r cyfleoedd yn Harlech

Cost: Dim cost ychwanegol.

### E8 Digwyddiadau proffil uchel a strategol

Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn. Byddwn yn gwneud hyn trwy sicrhau fod digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol wedi eu denu neu eu sefydlu yng Ngwynedd. Yn 2016/17, cefnogodd y prosiect 18 o ddigwyddiadau gyda budd i Wynedd o dros £6.6miliwn Byddwn hefyd yn cefnogi ardaloedd o fewn Gwynedd i ddatblygu digwyddiadau efo'r potensial i gyfrannu at y ddelwedd o fwrlwm a datblygu arbenigedd yr ardal ym maes trefnu a chynnal digwyddiadau, yn enwedig ymysg pobl ifanc a mentrau lleol.

Yn amodol ar roddi ystyriaeth i'r cais buddsoddi a nodir isod, erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi:

- Gweithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i fusnesau a thrigolion Gwynedd
- Gweithio'n agos gydag Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth
- Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau

Cost: £42,000 i barhau gyda'r cynllun, os yw asesiad o'r hyn a gyflawnwyd yn dangos y dylid rhyddhau'r adnodd ychwanegol i wneud hynny.

**Drwy weithio ar y cyd â phartneriaid byddwn yn rhoi rhaglen o gynlluniau ar waith i gefnogi pobl a chymunedau i ymateb i dlodi yng Ngwynedd. Bydd y pwyslais ar sicrhau gwella cynhwysiad a mynediad yr amrywiaeth o bobl sy'n byw yng Ngwynedd at wasanaethau, at waith, at gartrefi ac oddi fewn i'w cymunedau.**

**Hirdymor** **Atal** **Integreiddio** **Cydweithio** **Cynnwys**

# Y Gymraeg

Gwynedd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**Rydym yn gweithio'n agos gyda chymunedau i'w cefnogi a'u grymuso asesu sefyllfa'r Gymraeg yn eu cymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cydweithio gyda sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol a gwella profiad y defnyddiwr. Byddwn hefyd yn gweithio gydag ysgolion er mwyn cynyddu defnydd pobl ifanc o'r Gymraeg yn gymdeithasol.**

## 11 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg

Pwrpas y prosiect hwn yw hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned i weithredu'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.

Rydym eisoes wedi cwblhau Fframwaith Gweithredu'n Lleol a chynhyrchu cynlluniau gweithredu ar gyfer cymunedau Bangor, Porthmadog a Dolgellau. Yn ogystal, mae cyfleoedd i rymuso'r gymuned wedi eu hadnabod ac yn weithredol ym Mhwllheli.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, byddwn wedi cefnogi trigolion yn y pedair cymuned i gyflawni eu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau'r Fframwaith Gweithredu'n Lleol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Cost: Dim cost ychwanegol.

## 12 Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus

Pwrpas y gwaith hwn fydd cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gydag aelodau y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.

Bydd hefyd yn gyfrwng i gefnogi'r ddyletswydd fydd ar gyrff cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd nesaf i gydymffurfio efo'r Safonau Iaith a osodir arnynt gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn ategu'r gofynion fydd ynghlwm â'r fframwaith dilynol i *Mwy na Geiriau*.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi cytuno i flaenoriaethu'r gwaith yma sy'n golygu y bydd y partneriaid allweddol yn cydweithio gyda ni i gyrraedd y nod. Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi sicrhau cytundeb ymysg yr holl bartneriaid i gyrraedd lefel benodol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd dyddiol.

Cost: Dim cost ychwanegol.

Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys

## 13 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd

Dros y blynyddoedd, mae polisi iaith Cyngor Gwynedd wedi bod yn arf effeithiol i sicrhau statws priodol i'r iaith o fewn y sector gyhoeddus ac yn ehangach. Serch hynny, mae angen i ni sicrhau fod y polisi hwnnw yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y Cyngor.

Mae dau bwrpas i'r prosiect hwn:
Yn gyntaf, bydd yn ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion Gwynedd.

Yn ail, bydd yn cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y Sir. Bydd yn edrych ar y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn uniongyrchol, yn ogystal â gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy drefniadau a chytundebau trydydd parti.

Bydd y gwaith hwn yn gyd-destun ac yn sylfaen gadarn ar gyfer y Safonau Iaith y bydd y Cyngor yn atebol am eu gweithredu gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a ddaeth i rym yn ystod 2015/16.

Rydym eisoes wedi cynnal awdit o ddefnydd y Gymraeg gyda holl adrannau'r Cyngor. Mewn ymateb i ganfyddiadau'r awdit blaenoriaethwyd gwaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr Adrannau Ymgynghoriaeth, Economi a Chymuned, Rheoleiddio ac Oedolion, Iechyd a Llesiant gan lunio cynlluniau gweithredu manwl. Yn ogystal, datblygwyd Cynllun Cyfathrebu Corfforaethol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Cyngor.

Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi gweithredu ar ganlyniadau'r awdit yn yr adrannau dan sylw er mwyn gwella effeithiolrwydd polisi iaith y Cyngor.

Cost: Dim cost ychwanegol.


Hirdymor Atal Integreiddio Cydweithio Cynnwys

# Cyflawni'r Cynllun

Mae cyflawni'r cynllun yn flaenoriaeth bwysig ynddo'i hun. Rydym wedi rhoi trefniadau priodol mewn lle ar bob lefel o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni'r cynllun ac mae gan bawb ran bwysig i'w chwarae yn hynny.

Ffordd Gwynedd sydd yn graidd i weledigaeth y Cyngor ynglŷn â llesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol. Mae'n golygu gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd gennym, e.e. arian a staff, gwneud yn siŵr nad oes gennym brosesau gwastraffus a diangen a gwrando ar beth mae pobl Gwynedd yn ei ddweud wrthym ynglŷn â sut rydym yn ymateb i'w hanghenion. Er mwyn ein galluogi i gyflawni a gwella, byddwn yn canolbwyntio ar y cynlluniau canlynol yn ystod 2017/18:

## Ffordd Gwynedd




### Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

### FfG1 Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith

Nid yw sicrhau diwylliant cyson am ddigwydd ar ben ei hun, a phwrpas y prosiect hwn fydd arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.

Drwy wneud hyn byddwn yn sicrhau fod pob uned gwasanaeth o fewn y Cyngor yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth y maent yn ei wneud. Bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn ystyried dulliau amgen o weithredu (gan gynnwys cydweithio ag eraill) gan fesur y syniadau hynny yn ôl un llinyn mesur yn unig - sef i ba raddau y mae'n cynyddu'r budd i bobl Gwynedd.

Rydym eisoes wedi llunio rhaglen ddatblygu yn seiliedig ar ddysgu yn y gweithle ac wedi cynnal hyfforddiant ar egwyddorion Ffordd Gwynedd i Uwch Reolwyr a Phenaethiaid. Yn ogystal mae swyddogion ychwanegol wedi eu dynodi i weithio ar y prosiect ac erbyn hyn mae naw o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith o fewn y Cyngor.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, disgwylir cwblhau 15 adolygiad gwasanaeth ffurfiol a hyfforddi mwyafrif y Rheolwr Gwasanaeth yn egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) fel y gallant gynnal eu hadolygiadau eu hunain.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### FfG2 Rhaglen datblygu arweinwyr

Os am sicrhau fod y gweithlu yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog yn gyson mae'n rhaid i arweinwyr y Cyngor hefyd fod yn annog y fath ddiwylliant.

Pwrpas y prosiect yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei lle i sicrhau bod hynny'r digwydd yn gyson.

Sefydlwyd trefn werthuso newydd ar gyfer aelodau o'r tîm rheoli a'r penaethiaid, ac ers Ionawr 2016, mabwysiadwyd trefniadau gwerthuso parhaus. Bydd hyn yn caniatáu adolygiad rheolaidd o gynnydd rhaglen datblygiad personol pob aelod o'r Grŵp Rheoli.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu'r arweinyddiaeth ymysg Aelodau'r Cabinet yn dilyn yr Etholiad ym Mai 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### FfG3 Ymgysylltu

Mae sicrhau ein bod yn cwrdd â gwir anghenion ein trigolion yn golygu fod angen trefniadau ymgysylltu effeithiol a chyson, a phwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.

Tra bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i ddatblygu'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael i gefnogi swyddogion i ymgysylltu'n effeithiol a bod cynnydd calonogol wedi ei wneud mewn rhai gwasanaethau, rhaid cydnabod fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn sicrhau fod diwylliant o ymgysylltu effeithiol yn treiddio i bob rhan o'r Cyngor. Yn ystod 2017/18 byddwn yn gweithredu ar y camau canlynol i gyfarch y rhwystrau sy'n weddill:

- Cynnal awdit o allu adrannau unigol i gymryd cyfrifoldeb llawn am ymgysylltu yn effeithiol gyda'u cwsmeriaid
- Adolygu a chryfhau'r trefniadau er mwyn darparu tystiolaeth bendant i bobl Gwynedd fod y Cyngor yn darparu cyfle iddynt ddweud eu dweud. Hefyd, fod y Cyngor yn gwrando ar ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w blaenoriaethau
- Cryfhau'r adnodd a'r gefnogaeth ymgysylltu ganolog gan ganolbwyntio ar gryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc a moderneiddio trefniadau'r Panel Trigolion
- Sicrhau fod brand Cyngor Gwynedd yn ymddangos yn flaenllaw ar wasanaethau a chynlluniau sy'n cael eu cyllido gan y Cyngor fel bod pobl Gwynedd yn fwy ymwybodol o'r ystod o wasanaethau a'r gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei ddarparu i'w cymunedau

Cost: Dim cost ychwanegol.

### FfG4 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

Ar adeg o gyfyngiadau ariannol, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion trigolion yn effeithiol ond yn y modd mwyaf effeithlon.

Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol. Bydd y datblygiad hwn yn darparu mynediad i nifer o wasanaethau trwy gyfrwng y sianel ddigidol.

Rydym wedi cyflawni cam cyntaf y datblygiad ac wedi creu system graidd ar gyfer hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor.

Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi creu system cyfrif personol newydd a bydd modd cysylltu hefo mwy o wasanaethau trwy hunanwasanaeth.

Cost: Mae'r prosiect yn esblygu fel yr ydym yn mynd ymlaen a bydd angen asesu'r achos busnes yn barhaus.

### FfG5 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)

Mae Technoleg Gwybodaeth yn arf pwysig i sicrhau fod gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, a phwrpas y prosiect hwn yw gweithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a fabwysiadwyd yn 2016. Mae'n gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd â'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.

Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd yn y gwaith o hwyluso gallu'r cyhoedd i gysylltu hefo'r Cyngor, gwella'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr TG yn fewnol a chyflwyno offer newydd o fewn ystafelloedd cyfarfod.

Yn ystod 2017/18 byddwn yn parhau gyda'r gwaith hyn gan hefyd edrych i hwyluso mynediad y cyhoedd at wasanaethau'r Cyngor trwy ddefnyddio cyfryngau digidol, adolygu trefniadau gwaith a'r dechnoleg sydd ar gael i gyflawni hyn, cyflwyno offer technolegol i swyddogion yn y maes (megis gweithwyr gwastraff ac ailgylchu) a chydweithio gydag aelodau etholedig i ddarparu technoleg addas a phecynnau cefnogi a hyfforddiant fydd yn gwasanaethu aelodau'r Cyngor newydd ar ôl etholiadau Mai 2017.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### FfG6 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)

Pwrpas y prosiect hwn yw hyrwyddo effeithlonrwydd drwy sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol a lleihau'r defnydd o bapur. Bydd y system yn storio a rheoli mynediad i holl ddogfennau electronig. Bydd hefyd yn hwyluso cynlluniau arbedion drwy alluogi staff i arbed amser.

Rydym eisoes wedi sefydlu a chytuno'r achos busnes ac wedi dechrau datblygu system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig. Rydym wedi cyflwyno'r system i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Economi a Chymuned, Adran Cyllid, Adran Addysg a'r Adran Rheoleiddio.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, bydd holl adrannau'r Cyngor yn defnyddio'r system EDRMS a fydd yn arwain at arbedion blynyddol o £201,000 y flwyddyn. Yn ogystal bydd canolfan gofnodion wedi ei sefydlu bydd yn golygu fod cyfnod cadw wedi ei bennu ar gyfer hen eitemau.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### FfG7 Llywodraethu gwybodaeth

Mae gwybodaeth yn adnodd hanfodol a gwerthfawr i'n holl weithgareddau ac mae'n rhaid i ni sicrhau fod ein trefniadau gwaith yn ei gadw'n ddiogel.

Tra bod gennym drefniadau perthnasol i sicrhau ei fod yn ddiogel gyda hyfforddiant priodol, pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn llwyr effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn ddiogel yn ein dwylo.

Rydym wedi asesu priodoldeb ein trefniadau diogelu gwybodaeth (gan gynnwys effeithiolrwydd ein trefniadau hyfforddiant) gan gyfathrebu a chyflwyno polisi diogelu data i staff, cyflwyno trefniadau hyfforddiant newydd a chyflwyno trefniadau archwilio er mwyn gwreiddio egwyddorion diogelu gwybodaeth drwy'r holl sefydliad.

Erbyn diwedd Mawrth 2018 byddwn wedi symud ymlaen i asesu sut mae adrannau yn defnyddio eu gwybodaeth ar gyfer eu gwaith dydd i ddydd a blaen gynllunio, wedi trefnu i roi mwy o wybodaeth y Cyngor ar y wefan fel ei fod ar gael i eraill ei defnyddio ac wedi gosod trefniadau i baratoi ar gyfer deddfwriaeth diogelu data newydd.

# Cynllunio Ariannol

**Er mwyn cynnal gwasanaethau allweddol i'r dyfodol, rhaid wynebu'r her ariannol sy'n bodoli a gwneud penderfyniadau anodd. Byddwn yn gweithredu cyllideb gytbwys gynaliadwy, tra ar yr un pryd yn sicrhau fod gennym yr adnoddau angenrheidiol i wireddu uchelgais y Cyngor ar gyfer pobl Gwynedd.**

### CA1 Gwireddu arbedion

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion sydd wedi eu cymeradwyo.

Erbyn diwedd Mawrth 2018, rhagwelir y byddwn wedi gwireddu £20.6miliwn o'r £21.7miliwn gymeradwywyd o'r prosiect Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – 2017/18. Oherwydd cymhlethdod, mae cyfnod gwireddu rhai cynlluniau wedi cael ei ymestyn. Yn y cyfamser, mae cyfanswm y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo wedi cynyddu i £22.6miliwn. Yn ychwanegol, mae arbedion o £0.85miliwn o gyn brosiectau wedi eu gwireddu yn ystod y cyfnod hwn, a rhagwelir y bydd £4.6miliwn o'r toriadau sydd wedi eu cymeradwyo hefyd wedi eu gwireddu.

Cost: Dim cost ychwanegol.

### CA2 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth

Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen gan gynnwys ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.

Mae gwaith eisoes wedi mynd rhagddo i ddarganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu. Mae yna gynlluniau gwerth £1.082miliwn wedi eu hadnabod ar gyfer 2017/18 a gwaith pellach yn mynd rhagddo ar gyfer bwlch ariannol pellach o 2018/19 ymlaen.

Cost: Dim cost ychwanegol.

# Trefniadau gwaith y Cyngor

Yn ychwanegol, bydd angen inni wneud yn siŵr bod trefniadau gwaith y Cyngor yn ein cefnogi i gyflawni o ddydd i ddydd. Ceir rhagor o wybodaeth ar hyn isod:

**Y Cyngor** llawn sy'n gyfrifol am fabwysiadu Cynllun y Cyngor a gosod y cyfeiriad i waith y Cyngor am y flwyddyn, gydag **Aelodau Cabinet y Cyngor** yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o fewn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn sicrhau fod trefniadau rheoli prosiect a rheoli perfformiad cadarn mewn lle er mwyn cyflawni'r hyn rydym yn mynd i'w wneud.

Bydd y **Pwyllgorau Craffu** yn dal yr Aelodau Cabinet i gyfrif am eu perfformiad o safbwynt cyflawni a byddant hefyd yn craffu effaith y cynllun ar drigolion Gwynedd.

Bydd y **Cyngor** yn parhau i gydweithio gyda'i bartneriaid yn y sector gyhoeddus, trydydd sector a sector breifat i wireddu blaenoriaethau sydd angen mewnbwn gan fwy nag un partner i'w cyflawni.

Rydym yn ystyried y **5 ffordd o weithio (sef yr egwyddorion datblygu cynaliadwy)** yn rhan o'n hasesiad ar drefniadau gwaith y Cyngor, ac os byddwn yn gweld fod angen inni wella y ffordd rydym yn ymateb i ofynion y ddeddf, byddwn yn gwneud hynny.

Fel rhan o'n hymrwymiad i roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, byddwn yn ymgysylltu'n barhaus gyda thrigolion a chymunedau er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar waith y Cyngor a'u grymuso i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb o'r dyfodol.